

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

**28 Medi 2020**

## **SL(5)609 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020**

### **Gweithdrefn: Negyddol**

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" mewn perthynas â Chymru, a gallant felly wneud rheoliadau i ymestyn y "cyfnod perthnasol" i warchodaeth y tu hwnt i 30ain Mehefin 2020, a thrwy hynny gadw'r warchodaeth a ddarperir gan adran 82 y Ddeddf i'r dyddiad diweddarach a nodir yn y rheoliadau.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru)(Coronafeirws) 2020 y "cyfnod perthnasol" o 30 Mehefin 2020 hyd 30 Medi 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y "cyfnod perthnasol" am dri mis arall i 31 Rhagfyr 2020. O ganlyniad, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi ei estyn ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Coronafeirws 2020

**Fe'u gwnaed ar:** 07 Medi 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Medi 2020

**Yn dod i rym ar:** 30 Medi 2020



# SL(5)618 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020

## Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau yn—

- dynodi Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, a Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd, yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol;
- darparu mai un o'r gofynion yw bod rhaid i fangreoedd trwyddedig gau am 11 p.m. ym mhob ardal diogelu iechyd leol (gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili);
- darparu ei fod yn esgus rhesymol i bersonau sy'n byw mewn llety lle y rhennir cyfleusterau penodol ymgynnull o dan do fel pe baent yn un aelwyd (mae hyn yn cynnwys tai amlfeddiannaeth a llety myfyrwyr);
- gwneud mân ddiwygiadau i destun Cymraeg rheoliad 14C o'r prif Reoliadau.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 22 Medi 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 22 Medi 2020

**Yn dod i rym ar:** 22 Medi 2020

